

Beth sy'n digwydd?

Yn ystod y cyfnod hwn, gyda'n heglwysi'n cyfarfod yn rhithiol neu ar y ffôn, gyda'n Hadrannau a Phwyllgorau Canolog wedi eu gohirio a Henaduriaethau a Chymdeithasfa ond yn cyfarfod yn achlysurol, mae'n siŵr fod llawer yn holi 'beth sy'n digwydd' ar lefel y Cyfundeb?

Crynhoi

Fel y nodais rai misoedd yn ôl bellach, mae'r penderfyniadau sydd yn rhaid eu gwneud am amryw o resymau gan y Cyfundeb yn ganolog yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Gwaith Bwrdd y Gymanfa. Dymuniad y Pwyllgor oedd y byddwn yn eich diweddarau ar rai o'r pethau a gyflawnwyd dros y misoedd diwethaf yn eu cyfarfodydd. Mi fydd manylion y trafodaethau yn ymddangos yn ein hadroddiad i'r Bwrdd pan fydd yn cyfarfod nesaf, a drwy hynny, i'r Gymanfa, ond yr wyf yn cynnwys yma fraslun o'r hyn wnaed.

Gwasanaethu

Yn naturiol, mae ffocws y trafodaethau wedi bod ar ein gweinidogaeth yn ystod y cyfnod hwn, ac ar ein sefyllfa ariannol, yn arbennig gan mae hwn yw'r cyfnod lle y derbynir ein cyfrifon, a'r cyfnod lle y byddwn yn gwneud penderfyniadau ar lefelau incwm a gwariant am y flwyddyn nesaf.



Coleg Trefeca

Un o'r blaenoriaethau oedd delio â sefyllfa unigolion yr ydym yn cyflogi fel gweithwyr gweinidogaeth lle'r oedd diwedd eu contract yn agosáu. O dan ein gweithdrefnau, y mae'n ofynnol i gynnal adolygiad llawn chwe mis cyn diwedd unrhyw gytundeb. Oherwydd ein sefyllfa bresennol, penderfynwyd ymestyn tymhorau rhai unigolion i ganiatáu i'r Adran Gweinidogaethau wneud y gwaith hwn unwaith y bydd y cyfnod yma wedi dod i ben. Ar yr un pryd, cytunwyd i ohirio hysbysebu unrhyw swyddi newydd ar hyn

o bryd, ac i beidio ystyried ceisiadau m wariant ar swyddi 'newydd' dros dro. Wedi dweud hynny, bu'n rhaid ystyried ambell sefyllfa lle'r oedd Pwyllgor Bugeiliol wedi rhoi 'galwad' i unigolion, ond nad oedd yr eglwysi wedi cael cyfle i bleidleisio ar hynny. Cytunwyd na fyddem yn gwroddi wrth yr angenrheidrwydd i gynnal pleidleisiau o'r fath, a gwnaed trefniadau dros dro i ateb y sefyllfa bresennol. Edrychwn ymlaen at sefyllfa lle y gellir trefnu pleidleisiau rheolaidd er mwyn sicrhau ewyllys yr eglwysi yn y cyddestunau hyn. Ar yr un pryd, cytunwyd i fynd ymlaen gyda threfniadau oedd eisoes wedi eu gwneud i symud at weinidogaeth mewn rhai cylchoedd, ac i barhau trafodaeth gyda Henaduriaethau lle'r oedd cynlluniau eisoes ar y gweill. Cytunwyd hefyd i gychwyn dosrannu arian cyfalaf i brosiectau gweinidogaeth newydd, wrth barhau i annog Henaduriaethau i gymryd mantais o'r cyllid hwn.

Llacio ar y cyfyngiadau

Yn ddiweddar, yr ydym wedi bod yn ystyried ein hymateb i'r llacio graddol sydd ar y cyfyngiadau. Yr ydym eisoes wedi rhannu arweiniad ar agor ar gyfer gweddi breifat, a gobeithiwn gyhoeddi arweiniad pellach ar agor ar gyfer addoliad cyhoeddus ar gyfer ein holl eglwysi pan fydd hynny yn briodol. Yr ydym eisoes wedi paratoi taflen i'n heglwysi yn Lloegr i'w cynorthwyo i baratoi i ail-agor, ond gobeithiwn symud fel un Corff o ran pennu amser priodol i wneud hynny.

Ariannu

Yn ariannol, yr ydym yn derbyn diweddariad cyson gan ein Pennaeth Ariannol ar y sefyllfa gyfredol, yn arbennig gyda golwg ar gyfraniadau'r eglwysi. Mae'n deg nodi fod swm dyled yr eglwysi ar ddiwedd Mehefin wedi codi i dros £450 mil, ac er ein bod yn tybio fod yna ffactorau lleol sydd wedi dwysau'r sefyllfa yma, mae yn fater o ofid inni. Yr ydym yn parhau i ystyried os medrwn gynorthwyo'r eglwysi gyda gostyngiad pellach i'w cyfraniad disgwylidig, a byddwn yn penderfynu ar hynny pan ddaw ffigyrau terfynol ein gweithgarwch am y chwe mis cyntaf i law. Yr oedd yn galonogol clywed fod ein buddsoddiadau wedi perfformio yn dda i fyny at ddiwedd 2019, ac mae'r Grŵp yn cytuno y dylem bwysu ar yr arian sydd gennym mewn llaw yn bennaf i

ymateb i'r sefyllfa bresennol. Wedi nodi hyn, yr ydym wedi cael rhybudd fod yr incwm y cawn o'n buddsoddiadau yn mynd i fod yn sylweddol is eleni, ac mae'n anodd mesur hefyd beth fydd yr incwm a gawn o unrhyw werthiannau.

Cyfrifon

Da dweud fod ein cyfrifon bellach wedi eu harchwilio, ac yn achos y Cyfundeb yn ganolog, fel yn achos ein Cronfa Bensiwn, Coleg y Bala, Coleg Trefeca a'r Adran Ymgeiswyr, fod yr archwiliwr wedi rhoi adroddiad 'glân' inni. Yr oedd yn galonogol deall hefyd na fydd y ddau Goleg yn holi am gyfraniad ychwanegol i ateb y golled mewn incwm dros y cyfnod yma, yn bennaf oherwydd eu bod wedi medru manteisio ar Gynllun Diogelu Swyddi'r Llywodraeth.



Ystyriwyd lefel ein grantiau, a chytunwyd i barhau ar y lefelau y cytunwyd y flwyddyn ddiwethaf. O ran ein cyfraniadau eciwmenaidd, yr ydym wedi lleihau'r hyn a dalwn i ambell fudiad am resymau penodol. Y mae'r Grŵp yn parhau i ystyried lefel cydnabyddiaeth/cyflog ar gyfer 2021. Yr un modd, er y byddem yn arferol wedi dod i benderfyniad ar lefel y Cyfraniad Gweinidogaeth a Chenhadaeth ar gyfer 2021 yn fis Mai yn flynyddol, yr ydym am oedi penderfynu ar hynny nes y daw ein sefyllfa fel eglwysi yn gliriach yn ystod y chwarter presennol.

Diweddarau pellach

Gobeithiaf roi diweddariad pellach ichwi ar hyn, a byddaf, wrth wneud hynny yn cynnwys ychydig mwy o fanylion am unrhyw benderfyniadau. Yr wyf am gloi gan ddiolch yn arbennig i'r ymateb rhagorol fu i'r Holiadur. Mae'r Grŵp yn ystyried y canfyddiadau ar hyn o bryd, a byddwn yn amlinellu ein hymateb mor fuan ag y bo modd.

*Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol*

Adroddiad Y Weinidogaeth Iacháu

“HAUWCH I CHWI MEWN CYFIAWNDER, MEDWCH MEWN TRUGAREDD; BRAENARWCH I CHWI FRAENAR: CANYS Y MAE YN AMSER I GEISIO YR ARGLWYDD, HYD ONI DDELO A GLAWIO CYFIAWNDER ARNOCH.”

Hosea 10: 12

Yr uchod oedd un o'r negeseuon o obaith a rannwyd yn ddiweddar yng Nghylchgrawn Y Weinidogaeth Iacháu. Do, cawsom ein siomi na chynhaliwyd yr Ysgol Haf eleni ond rydym eisoes yn braenaru'r tir' ac mae ein lle yng Nghefn Lea ger y Drenewydd eisoes wedi ei sicrhau erbyn **21-24ain Mehefin 2021** a threfniadau'r Ysgol Haf ar y gweill!

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at y Cylchlythyr a'r Atodiad a ddanfonwyd allan yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen mewn ffydd i'n haddoldai gael eu hail agor ac i bethau ddog yn ôl i normal yn fuan. Gobeithiwn y bydd dynoliaeth wedi dysgu gwersi pwysig o'r pandemig – am ofalu am eraill a bod modd byw heb orfod teithio di-ddiwedd mewn ceir ac awyrennau!

Yn ystod y flwyddyn ers yr Ysgol Haf y llynedd, collwyd pedair gwraig a fu yn ffyddlon i'r Weinidogaeth Iacháu a'r Ysgol Haf. Cydymdeimlwn a'i teuluoedd. A diolch am gael eu hadnabod.



Mrs Jean Davies
(gweler isod)



Mrs Rhiannon Evans – bu yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Haf a'r Encil tra oedd ei hiechyd yn caniatáu.



Mrs Kathleen Owen, Ynys Môn – Bu Kathleen a'i ddiweddar ŵr Eddie Owen yn mynychu am flynyddoedd lawer.



Miss Joan Hughes, Caernarfon – Bu yn weithgar iawn yng Nghanolfan Y Weinidogaeth Iacháu yng Nghaernarfon.
Gyda Trefor Lewis adeg dathlu Ysgol Haf yn 50.

Yn ychwanegol fe gollwyd un o gefnogwyr arall y Weinidogaeth Iacháu yn ddiweddar sef Mrs. Lois Murphy. Roedd Mrs Lois Murphy, a fu farw 24 Mai diwethaf, yn 98 mlwydd oed, yn un o dair merch o Fanceinion fyddai'n dod yn gyson i'r Ysgol Haf. Yn hannu o Faesteg treuliodd ran helaeth o'i hoes yn ardal Manceinion; bu'n gefn mawr i'r achosion Cymraeg yn y ddinas ar hyd ei bywyd gan weithredu fel Ysgrifennydd capel Cymraeg Oaker Avenue am 33 mlynedd. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i chyfeillion yn eu colled.

Mae'n edrych fel na chyhelir ein Hencil flynyddol yn Nhrefeca eleni 'chwaith a mawr fydd colled ein mynychwyr selog. Fel y crybwyllwyd uchod, fe gollwyd un o'r 'hoelion wyth' y llynedd ym marwolaeth Mrs Jean Davies (yn y llun uchod). Diolchwn i Dduw amdani ac am ei chyfraniad arbennig ar hyd y blynyddoedd. Bu Jean yn ysbrydoliaeth i lawer a pharhaodd i arwain yr Encil ynghyd â'r Dr. Peter Ashton a'r Parch. Ddr. Nerys Tudor hyd y diwedd. Bydd bwch mawr ar ei hôl ond gwyddom mai dymuniad Jean fyddai i ni beidio ac edrych yn ôl ond i ail afael yn yr aradr cyn gynted ac y gallwn!

Bydd rhaid braenaru'r tir. Mawr fydd ein gwobr.

Nerys Rowlands

Teyrnged i dair bro

Mae llyfr diweddaraf Harri Parri, *Cerdded y Palmant Golau*, yn gwerthu fel slecs felly cysylltwch â'ch siop lyfrau i sicrhau eich copi chi!


Dilyn bywyd a gwaith Harri fel gweinidog mewn tair gofalaeth a thair ardal wahanol, Uwchaled, Porthmadog a Chaernarfon, y mae'r gyfrol hon.

Trwy lygaid Harri, fe ddown i adnabod yr ardaloedd a'r bobol hynny a fu'n ei gynorthwyo ac yn cyfoethogi ei fywyd ar hyd y daith.

'Anodd oedd rhoi'r gyfrol i lawr,' meddai Beti Griffiths o Lanilar ar ôl darllen *Cerdded y Palmant Golau*. 'Mae'r "hunangofiant" hwn yn berl ac yn gyfraniad gwerthfawr,' ychwanegodd.

Ac meddai Harri, 'Mae'r gyfrol, am ei gwerth, yn llawn cymaint o gofiant i dair bro ag ydi hi o stori un person ... Heb garedigrwydd ac ysbrydolrwydd pobl tair ardal fyddai yna ddim stori i'w hadrodd.'

Cerdded y Palmant Golau, Harri Parri
Gwasg y Bwthyn, £10.00



Ymwelwch â gwefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru:
www.ebcpcw.cymru

Gwers yr ysgol Sul mewn cyfnod o hunanynysu – a thu hwnt!

Gair o ddiolch a gwerthfawrogiad

Erbyn hyn daeth cyfres bresennol y gwersi ysgol Sul wythnosol i ben, ac wrth gydnabod hynny rhaid cymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant iawn i awdur y gyfrol *Geiriau Ffydd 3*, sef y Parch. John Treharne, a hefyd awdur y nodiadau wythnosol ychwanegol yn y Pedair Tudalen, sef y Parch. Hywel Edwards, am eu gwaith diflino dros y flwyddyn ddiwethaf wrth iddynt ein harwain drwy'r Hen Destament. Bu'n gyfle godidog i atgoffa ein hunain o ystod ac amrediad yr Hen Destament wrth i ni ymweld â phob un llyfr yn ei dro. Diolch am y grwpiau o oedolion sy'n cyfarfod un ai ar y Sul neu mewn cyfarfod canol wythnos i astudio'r Gair, ac sy'n cael budd a phleser o'r arlwy sy'n cael ei baratoi. Fodd bynnag, yn y cyfnod rhyfedd hwn o fethu cynnal grwpiau trafod, bu'n rhaid i ni ystyried beth i'w wneud o ran esboniad a gwersi wythnosol, gan gydnabod bod angen darpariaeth ond efallai mewn diwyg ychydig yn wahanol.

Cymeriadau'r Testament Newydd

Wrth edrych at y cyfnod nesaf hwn, fe fyddwn yn cychwyn cyfres newydd

sbon a fydd yn cymryd cip ar rai o gymeriadau'r Testament Newydd – 44 ohonynt i gyd. Bydd pob un cymeriad neu grŵp yn ein harwain at ddarn o'r Ysgrhythur, a cheir esboniad a myfyrdod byr, ynghyd â gweddi fer wrth agor a chloi pob sesiwn. Mae'r deunydd yma'n arbennig o berthnasol ar gyfer yr aelwyd, ac yn rhywbeth y medr holl ddarlennwyr y Pedair Tudalen droi ato'n wythnosol. Yn ogystal fe ddarperir 3/4 sylw a chwestiwn i brocio'r meddwl; gall y rhain fod ar gyfer yr unigolyn, neu bydd modd cynnal ysgol Sul, wrth gwrs, neu astudiaeth drwy gyfrwng fideo Zoom neu debyg, a chael trafodaeth fwy agored.

Mae'r myfyrdodau hyn wedi cael eu paratoi gan y Parch Denzil John, gweinidog ffyddlon Eglwys y Tabernacl yng Nghaerdydd. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar am gael gweld y dosbarthiadau oedolion yn ailgychwyn eto, a mawr hyderwn y bydd y deunydd hwn yn gweithio yn y cyd-destun hwnnw hefyd tan haf 2021. Diolch eto i Denzil John am baratoi'r myfyrdodau yma ar ein cyfer. Bydd y myfyrdodau hefyd ar gael ar ein gwefan www.ysgolsul.com, fel ffeiliau testun a hefyd fel ffilmiau byr i'w gwyllo.

Rydym hefyd yn gobeithio sefydlu fforwm trafod ar ein tudalen Facebook, 'Cyngor Ysgolion Sul', er mwyn annog sylwadau a chwestiynau.

Tu hwnt i Fedi 2021

Yna, o fis Medi 2021 ymlaen, bydd y maes yn troi i gyfeiriad y gyfrol *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham*, gan ddilyn y llyfr cyntaf mewn cyfres newydd gan yr Athro Gareth Lloyd Jones sy'n ddilyniant i gyfres boblogaidd Elfed ap Nefydd Roberts 'Dehongli ...' ar y Testament Newydd. Byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham yn gyntaf, ac yna yn 2022 yn astudio'i ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, gobeithir cynnwys 'gwers' neu astudiaeth ysgol Sul ar gyfer y Tudalennau Cydenwadol yn y cylchgronau enwadol yn ogystal.

Bendith ar bob astudiaeth o'r Gair, gan ddiolch am bob dosbarth ysgol Sul sy'n cyfarfod ledled y wlad.

Aled Davies,

Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd – Yr Efengylau

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae fideo o'r deunydd i'w weld yn yr adran 'Gwersi Ysgol Sul i Oedolion' ar sianel deledu www.cristnogaeth.cymru

Gwers 1

Ioan Fedyddiwr

Gweddi

Nefol Dad, gwyddom fod amheuaeth yn taro'r mwyafrif o bryd i'w gilydd, a gweddiwn arnat i'n goleuo o'r newydd a chadarnhau ein ffydd. Amen.

Darlleniad

Luc 7: 18–35

Cyflwyniad

Bydd y pedwar Efengyllydd yn cyfeirio at Ioan Fedyddiwr, gyda Marc yn dechrau ei Efengyl drwy sôn am fedydd Iesu yn yr Iorddonen a Mathew yn cyflwyno darlun ohono fel pregethwr tanbaid yn galw pobl i edifeirwch. Dyfynnir ef yn cyhoeddi bod y Meseia yn dod ac y byddai'n bedyddio â'r

Ysbryd Glân. Yr un yw adroddiad Ioan hefyd o'r proffwyd yn cyfeirio at Oen Duw, ac yn cadarnhau bod Iesu yn gwbl unigryw. Gwisgai ddillad o groen camel – nodwedd proffwyd, gan fwyta locustiaid a mêl gwyllt, ac roedd yn byw mewn tir anial. Teithiai pobl ato, ac ymateb i'w bregethu drwy dderbyn bedydd edifeirwch.

Ceir hanes bod ei fam yntau a mam Iesu yn ddwy gyfnither, a bod y plentyn yng nghroth y naill wedi cyffroi pan ddaeth y ddwy fam i'r un ystafell. Pwysleisia'r efengyllydd fod rhywbeth arwyddocaol yn ymateb y ddau blentyn i'w gilydd cyn eu geni. Eto yn Luc 7, cawn adroddiad fod y proffwyd yn anfon dau o'i ddisgyblion at Iesu a gofyn ai ef oedd yr un roedd y genedl yn ei ddisgwyl. Ateb Iesu oedd bod angen i'w weithgarwch ddwyn tystiolaeth gadarnhaol. Edrydd Mathew

yr un hanes (Mathew 11:2–29) gan geisio profi i'r Eglwys Fore fod Iesu yn cyflawni holl ddisgwyliadau a gobaith y grefydd Iddewig, ac eto pan ddaeth, roedd amheuaeth ac ansicrwydd, hyd yn oed gan Ioan Fedyddiwr, ac yntau'n gofyn: "Ai ti yw'r hwn sydd i ddod, ai am rhywun arall yr ydym yn ei ddisgwyl?" (adn. 30). Gwelir Ioan fel pont rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, fel un a oedd yn darogan dyfod Iesu, ond pan ddaeth y prawf arno, mae'n ansicr ac yn amlygu amheuaeth. Mewn cyfnod o ansicrwydd, holwn a yw'r eglwys yn cyflwyno ffydd neu amheuaeth, sicrwydd neu ansicrwydd i'r byd?

Myfyrdod

Bydd y mwyafrif ohonom yn deall beth yw amheuaeth ar daith bywyd. Bydd rhai yn amau arweiniad meddygol ac eraill yn amheus o ddarganfyddiadau gwyddonol. Clywn ambell lais Cristnogol yn gwrthod tystiolaeth wyddonol yn hytrach nag ystyried cyfyngiadau ei ffydd yng ngoleuni gwybodaeth newydd. Yr enghraifft glasurol o amheuaeth oedd Thomas y disgybl a gollodd oedfa bwysig, ac mae

(parhad ar y dudalen nesaf)

Y Traethodydd

Rhifyn Gorffennaf 2020

Er gwaethaf argyfwng Covid-19, mae rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd* bellach ar gael i'ch goleuo chi a'ch diddanu. Yn y rhan gyntaf o ysgrif a fydd yn ymestyn dros ddau rifyn, bydd Llion Wigley yn mynd â chi ar daith i fannau tramor lle bu'r Cymry yn ymweld â nhw ar ganol yr ugeinfed ganrif. 'Rhyfeddu at y cread' yw teitl ei ysgrif, a'i hisbennawd yn 'Llenyddiaeth taith yn Gymraeg, c. 1931–1975'. Ynddi, cewch gwmi amrywiaeth o awduron yn cynnwys Ambrose Bebb a'i *Grwydro'r Cyfandir* yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd, Dafydd Jenkins yn cymharu Cymru â gwledydd Llychlyn yn y pumdegau a Dewi Eirug Davies a Gareth Alban Davies, dau Annibynnwr a fu'n trigiannu yn America dros dro yn y chwedegau, y naill yn Richmond, Virginia, fel y tystir yn ei ddyddlyfr *Blas Virginia* (1963), a'r llall yn Dartmouth, New Hampshire, fel y gwelir o'i *Ddyddiadur America* flwyddyn yn ddiweddarach. A ninnau wedi bod yn gaeth i'n cartrefi cyhyd, mae rhywbeth difyr a diddanus cael bod yn eu cwmi, yn ein hatgoffa am ryddid a gollwyd heb

sôn am y newidiadau creiddiol rhwng eu cyfnod nhw a'n byd ninnau.

Natur grefyddol sydd i ddwy erthygl arall, sef erthygl-adolygiad Dr Robert Pope yn tafoli gwaith Golygydd y *Traethodydd*, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology yn Wales*, Cyfrol 1, 1588–1760, a darlith Dr John Tudno Williams sy'n crynhoi cynnwys ei gyfrol newydd, *Diwinyddiaeth Paul*, sydd newydd ymddangos gan Wasg Prifysgol Cymru. Mae mwy na thipyn yn cysylltu'r naill ysgrif â'r llall, gan i'r Beibl fod yn sylfaen gweithgaredd ddeallusol ac ysbrydol y Cymry rhwng cyfnod William Salesbury, yr Esgob Richard Davies a'r Esgob William Morgan, y cyfieithwyr cynnar, a'r Diwygiad Efengylaidd, ac i syniadaeth yr Apostol fod yn flaenllaw yn eu dealltwriaeth o 'fêr yr athrawiaeth iachus'. Ffrwyth sylwadau a draddodwyd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ddau gyfraniad fel ei gilydd, y naill yn Eisteddfod Caerdydd a'r Fro a'r llall yn Eisteddfod Llanrwst a Dyffryn Conwy. Cyflwynodd Dr John Tudno ei ddarlith er cof am un a fu'n annwyl i lawer ohonom, sef y diweddar Barchg Euros Wyn Jones yr oedd ei farw annhymig yn gymaint o golled i'r dystiolaeth Gristnogol yn ein gwlad.

Adnabod Cymeriadau'r Testament Newydd

(parhad)

enghraifft Ioan Fedyddiwr yn cynnig person arbennig yn holi ai Iesu oedd y Gwaredwr go iawn.

Efallai fod Luc am ddweud wrth yr Eglwys Fore fod amheuaeth hyd yn oed oddi mewn i'r cylch agosaf at Iesu, ac eto bod y Cristnogion cynnar wedi dangos ffydd hyd at farwolaeth, yn hytrach na gwadu Iesu. Tybed faint o bobl a wrandawodd ar yr apostolion ond heb fod yn siŵr beth i'w ddisgwyl a pha bryd roedd yr Ail-ddyfodiad i ddiwydd.

Yn ein cyfnod ni, byddwn yn clywed yr amheuwyr a'r anffyddwyr yn herio'r eglwys ac yn gofyn am brawf o fodolaeth Duw ac yn chwennych clywed neges gadarnhaol a didwyll. Mae amheuaeth yn iach, ond mae angen i'r amheuwyr deimlo fod yr eglwys o ddifrif yn ei thystiolaeth. Dyna her yr eglwys heddiw: rhannu profiad a chadarnhau fod Iesu yn fyw yn ein profiad a'n hargyhoeddiad. Dywed yr emynydd fod 'nos a Duw yn llawer gwell, / na golau ddydd a Duw ymhell'. Rhannwn ein goleuni, beth bynnag yw ei nerth, er mwyn goleuo cornel dywyll y bobl sy'n ansicr o'u ffydd.

O aed, o aed yr hyfryd wawr ar led,
goleued daear lydan.
Halelwia, Amen.

Gwedd


Diolch, Iesu, am fod yn oleuni'r byd.
Goleua ein llwybr a thywys ni i rannu
ein kannwyll gydag eraill. Amen.

Trafod ac ymateb

- 'Anghrediniaeth, gad fi'n llonydd' oedd cri Dafydd William, yr emynydd (*Caneuon Ffydd*, 729) a llawer o emynwyr eraill: e.e. *Caneuon Ffydd*, 368, 551, 593, 623, 677, 750. Ystyriwch ymateb yr emynwyr hyn iddo.
- Gan gofio bod Ioan yn y carchar (Mathew 11:2) pan anfonodd ei ddisgyblion at Iesu i'w holi, faint o effaith mae'r amgylchiadau o'n cwmpas a'r hinsawdd ysbrydol yn eu cael ar ein stad o feddwl a'n hamheuon?
- At beth mae Iesu'n cyfeirio wrth fynd ati i dawelu amheuon Ioan? (Luc 7:22)
- Ymhle mae tystiolaeth o'r Efengyl yn llwyddo i'w gweld heddiw? A ydym yn barod i edrych am y manau golau hynny a rhoi diolch amdanynt?

Gorffennaf2020

Y Traethodydd



Gwaith yr Apostol

Yn ogystal â'r uchod ceir cerddi gan y bardd Mary Burdett-Jones a dau adolygiad swmpus, y naill gan Robert Rhys yn tafoli astudiaeth Rhys Llwyd ar genedlaetholdeb Cristnogol R. Tudor Jones (y byddwn yn dathlu canmlwydd ei eni y flwyddyn nesaf), sef *Tynged Cenedl* (Cyhoeddiadau'r Gair), a'r llall gan Carys Moseley yn gwerthfawrogi cyfrol R. Iestyn Daniel, *Llythyr Gildas a Dinistr Prydain*, un o'r gyfres Cyfrolau Cenedl a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ddalen Newydd. Mae'r ddwy ymdriniaeth yn dreiddgar wybodus, a'r gweithiau y maent yn seiliedig arnynt yn gyfraniad pwysig i swm ein dealltwriaeth o'n gwaddol cenedlaethol.

Diolchwn i staff ymroddgar Gwasg Gomer am sicrhau bod *Y Traethodydd* yn dal i gael ei gynhyrchu er gwaethaf pwysau rhyfedd y cyfnod clo. Os hoffech archebu copi, gallwch wneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am wybodaeth ychwanegol, gellwch gysylltu ag Alice Williams (alice@ebcpew.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

* * *

Y Traethodydd yw'r hynaf o'n cylchgronau Cymraeg, ac un o'r ychydig lwyfannau sydd gennym er mwyn trafod yn ddeallus bob gwedd ar y bywyd diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys materion sydd o ddiddordeb i bawb sy'n darllen 'Y Pedair Tudalen'. Fe'i golygir gan yr Athro D. Densil Morgan gyda chymorth yr Athro Mererid Hopwood, Dr Hefin Jones, Dr Cynfael Lake a Dr Eryn White.

TROSEDD CASINEB ym Mhen-y-groes, Arfon yn ddiweddar Ydych chi'n PRYDERU AM DROSEDD CASINEB yn digwydd yn eich capel chi?

Mae'r Swyddfa Gartref newydd gyhoeddi bod y bumed rownd o gynllun ariannu diogelwch amddiffynnol i addoldai (POW) bellach ar **agor i geisiadau tan 23:59 ar 9 Awst 2020**.

Cafodd y cynllun, a gyflwynwyd gyntaf yn 2016, ei symleiddio a'i ehangu yn dilyn ymosodiad terfysgol Christchurch yn 2019, ac mae swm y cyllid sydd ar gael wedi dyblu i £3,200,000 ers y llynedd. Ers ei gyflwyno mae dros 180 o grantiau wedi eu dyfarnu i helpu 76 o eglwysi, 75 mosg, 23 gurdwara a 9 templ Hindŵaidd.

Dywedodd y Farwnes Williams, y Gweinidog Gwrthderfysgaeth: 'Yn ystod y pandemig byd-eang hwn, bu ffydd bersonol yn ffynhonnell cysur a chryfder i lawer. Byddwn yn annog pob addoldy sy'n teimlo'i fod yn agored i droseddau



Nid capel ond drws tŷ annedd ym Mhen-y-groes, Arfon.
Ai capel fydd nesaf?

casineb i wneud cais am y Gronfa, ac fel Llywodraeth byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i wneud i'ch cynulleidfaoedd

deimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn.'

Mae addoldai wedi cael grantiau i osod mesurau megis larymau amddiffynnol, goleuadau diogelwch a rheolyddion mynediad. Mae'r cynllun yn agored i addoldai a chanolfannau cymuned ffydd cysylltiedig (Rydym yn diffinio'r rhain fel canolfannau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan addoldy neu gerllaw addoldy sy'n seiliedig ar ffydd, a lle mae addoli rheolaidd yn digwydd) ledled Cymru a Lloegr.

Mae rhagor o fanylion am y cynllun ariannu a sut i wneud cais ar gael drwy'r ddolen isod.

<https://www.gov.uk/guidance/places-of-worship-security-funding-scheme>

Rheinallt Thomas

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Eglwysi Cymru wedi eu siomi yn Boris Johnson

Mae arweinwyr eglwysi yng Nghymru wedi datgan eu siom ym mhenderfyniad llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i uno'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol â'r Swyddfa Dramor. Mewn llythyr wedi ei arwyddo ar y cyd â'r elusen ddatblygu rhyngwladol Cymorth Cristnogol, maent wedi annog y Prif Weinidog Boris Johnson i sicrhau bod gwerthoedd a hygredd yr adran yn cael eu gwarchod i'r dyfodol.

Meddai Cynan Llwyd, pennaeth gweithredol Cymorth Cristnogol yng Nghymru, 'Rydwn ni wedi'n siomi'n fawr o glywed y newydd am benderfyniad Llywodraeth Prydain, yn enwedig mewn cyfnod pan fo cymunedau tlotaf y byd yn wynebu Covid-19 a'r argyfwng hinsawdd. Mae Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol wedi bod yn bartner pwysig yn y frwydr yn erbyn tlodi byd-eang dros y blynyddoedd. Rydym yn teimlo fod y gwaith hwn nawr mewn perygl.'

Meddai Nan Powell-Davies, gweinidog gydag Eglwys Bresbyteriaidd Cymru a Chadeirydd Cymorth Cristnogol Cymru, 'Fel un o wledydd cyfoethocaf y byd, credwn fod cyfrifoldeb ar y Deyrnas Gyfunol i helpu i ddileu tlodi yn y de byd-eang. Am y tro cyntaf yn 2013, fe gyrrhaeddodd y Deyrnas Gyfunol y nod o wario 0.7% o'r incwm cenedlaethol ar gymorth a gwaith datblygu. Roedd hon yn foment bwysig i'r gwledydd hyn – yn rhywbeth oedd yn ehangu ein henw da.'

'Ond nid jest faint yr ydan ni'n ei wario sy'n bwysig – mae sut yr ydan ni'n ei wario yn allweddol. Roedd gan Adran

dros Ddatblygu Rhyngwladol enw ardderchog am wario arian yn dda ac yn dryloyw. Does gan y Swyddfa Dramor ddim o'r un enw da. Mae'n gonsŷrn mawr inni, felly, y gallai'r penderfyniad i uno'r ddwy adran wneud drwg sylweddol i waith cymorth a datblygu'r Deyrnas Gyfunol.'

Ychwanegodd Cynan Llwyd, 'Mae yna hanes hir oddi mewn i eglwysi Cymru o gefnogi'r frwydr yn erbyn tlodi. Mae'n rhan annatod o'n ffydd Gristnogol. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau ond rydym yn gobeithio na chaiff ei danseilio gan y penderfyniad rhyfygus hwn gan llywodraeth Prydain.'

Yn ogystal â Cynan Llwyd o fudiad Cymorth Cristnogol, cafodd y llythyr ei arwyddo gan y Parch Nan Powell-Davies (Cadeirydd Cymorth Cristnogol Cymru), Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig John Davies, y Gwir Barchedig Joanna Penberthy (Esgob Tyddewi), y Parch Meirion Morris (Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), y Parch Judith Morris (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru), y Parch Dyfrig Rees (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Annibynwyr Cymru), y Parch Ddr Jennifer Hurd (Cadeirydd Synod Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd), y Parch Christopher Gillham (Ysgrifennydd Ffederaliwn Cynulleidfaol Cymru), y Parch Ddr Stephen Wigley (Cadeirydd Synod Methodistiaid Cymru), y Parch Simon Walkling (Llywydd, Eglwys Ddiwygiedig Unedig Cymru).

A ddylai eglwysi fuddsoddi mewn cwmnïau olew?

Mae'r elusen Gristnogol Operation Noah wedi cyhoeddi adroddiad newydd: 'Church investments in major oil companies: Paris compliant or Paris defiant?' Mae'r adroddiad yn dangos y bwlch rhwng arferion y prif gwmnïau olew a thargedau Cytundeb Paris, ac yn galw ar yr eglwysi yng ngwledydd Prydain i ddatfuddsoddi ar frys o danwydd ffosil er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'n pwysleisio fod Shell a BP yn bwriadu gwario symiau mawr o arian ar chwilio am ac echdynnu o gronfeydd newydd dros y degawd nesaf. Mae Shell a BP yn bwriadu codi cynhyrchiant olew a nwy o 38% ac 20% yr un rhwng 2018 a 2030, pan fo angen i allyriadau carbon byd-eang syrthio o 55% erbyn 2030 er mwyn cyfyngu'r cynnydd cyfartalog yn nymheredd y byd i 1.5 °C, yn ôl adroddiad Bwlch Allyriadau'r Cenhedloedd Unedig 2019.

Wrth ymateb i'r adroddiad, meddai'r Gwir Barch. Ddr Rowan Williams, cyn Archesgob Cymru ac Archesgob Caergaint: 'Mae'r argyfwng iechyd presennol wedi dangos fel dim byd o'r blaen yr angen am weithredu rhyngwladol cydlynus yn wyneb bygythiad byd-eang. Allwn ni ddsu'r wers a'i chymhwyso i fygythiad byd-eang newid hinsawdd? Mae gwneud hynny yn golygu cymryd camau ymarferol ac effeithiol i leihau ein dibyniaeth farwol ar danwydd ffosil, ac mae'r adroddiad hwn yn herio'r Eglwysi i gymryd y camau hynny ar frys.'

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn Mehefin 2020)

Sul yr Hinsawdd: eglwysi yn lansio ymgyrch amgylcheddol blwyddyn o hyd



Mae eglwysi yn cael eu hannog i ffocysu ar newid hinsawdd. Boed yn drefnu oedfa yn canolbwyntio ar yr hinsawdd neu galw am weithredu mwy mentrus gan lywodraethau, gofynnir i eglwysi gymryd rhan yn ymgyrch Sul yr Hinsawdd cyn cyfarfod hinsawdd byd-eang COP26 yn Nhachwedd 2021.



Mae'n dechrau ar Fedi 6 eleni, y Sul cyntaf yn nhyr blynyddol y Cread, ac fe'i trefnir gan Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon a Cytûn, gyda chefnogaeth nifer o aelod eglwysi ac elusennau megis CAFOD, Cymorth Cristnogol, Tearfund, A Rocha UK, ac Operation Noah. Anogir eglwysi lleol i gynnal Sul yr Hinsawdd yn lleol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, a darperir adnoddau rhad ac am ddim sy'n addas i bob traddodiad a dull addoli. Fe wahoddir pob eglwys i wneud un neu fwy o'r tri pheth canlynol:

- Cynnal oedfa'r hinsawdd, er mwyn archwilio sail ddiwinyddol a gwyddonol gofalu am y cread a gweithredu dros yr hinsawdd, gweddio ac ymrwymo i weithredu.
- Ymrwymo fel cymuned eglwysig leol i gymryd camau gweithredol hirdymor i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Ymuno ag eglwysi eraill a'r gymdeithas ehangach trwy ychwanegu ei henw i alwad ar y cyd i lywodraeth y Deyrnas Unedig gymryd camau mwy mentrus o lawer am newid hinsawdd yn y wlad hon cyn COP26, a chryfhau ei hygredd i arwain y gymuned ryngwladol i fabwysiadu camau sylweddol iawn yn COP26.

Uchafbwynt yr ymgyrch fydd Sul yr Hinsawdd cenedlaethol ar Sul 5ed Medi 2021 i rannu ymrwymadau'r eglwysi a gweddio dros weithredu mentrus ac arweiniad dewr yn COP26.

Meddai'r Barch. Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru: "Mae Sul yr Hinsawdd yn gyfle hanfodol i bob eglwys weithredu mewn ffyrdd sydd fawr eu hangen i fynd i'r afael ag un o'r materion pwysicaf sy'n wynebu ein planed, a hynny ar frys. A ninnau'n

stiwardiaid ar gread Duw, mae'n hollbwyysig ein bod yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac yn ymdyngedu i ddiogelu'r dyfodol ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae angen i ni wneud newidiadau cyn ei bod hi'n rhy hwyr a gobeithiwn y bydd y fenter hon yn ysgogi pob Cristion yng Nghymru i weithredu."

Meddai'r Canon Carol Wardman, llefarydd dros grŵp amgylcheddol yr Eglwys yng Nghymru, CHASE (Church Action for Sustaining the Environment), "Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi gwerthfawrogi natur o'r newydd ac mae hyn wedi ein hatgoffa pa mor werthfawr yw'r amgylchedd naturiol o'n cwmpas. Rydym oll wedi mwynhau aer glanach, heolydd tawelach, awyr gliriach, a chlywed cân yr adar. Ond mae'r tywydd eithafol eleni, gyda llyfogydd dinistriol y gaeaf a wedyn y gwanwyn sychaf erioed, wedi tynnu'n sylw at effaith newid hinsawdd.

"Mae Sul yr Hinsawdd yn gyfle i ni i gyd ganolbwyntio ar sut y gallwn ofalu'n well am gread Duw, ac atgoffa'n hunain nad moethusrwydd yw gofalu am yr amgylchedd, ond rhywbeth ddylai wrth gallon ein cynlluniau i ymadfer yn dilyn argyfwng y pandemig. Rydym yn

annog pob un o'n heglwysi i gymryd rhan ym mha ffordd bynnag y gallant."

I gofrestru ar gyfer Sul yr Hinsawdd ewch i'r wefan: <https://www.climatesunday.org>. Gallwch ddarllen mwy am y fenter gan Andy Atkins, Prif Weithredwr A Rocha UK a Chadeirydd Pwyllgor Llywio Sul yr Hinsawdd yma (<http://www.cytun.co.uk/hafan/sul-yr-hinsawdd/>).

Os nad ydych am aros tan fis Medi, mae nifer o bartneriaid Sul yr Hinsawdd – yn cynnwys A Rocha UK, CAFOD, Cymorth Cristnogol, Tearfund, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Cymdeithas y Cyfeillion a Byddin yr Iachawdwriaeth yn rhan o drefnu lobi rhithiol o San Steffan dros adferiad cyfiawn wedi Covid-19, Nawr yw'r Amser (<https://www.theclimatecoalition.org>), ar 30 Mehefin 2020 dan nawdd Clymblaid yr Hinsawdd.

Yn y llun uchod gwelir Eglwys St Joseph, Cwmaman, yr eglwys gyntaf o fewn yr Eglwys yng Nghymru i gael ei phweru gan ynni solar.

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn Mehefin 2020)



Caniadaeth y Cysegr Sul, 12fed Gorffennaf 7:30yb a 4:30yp

Y Parchedig R. Alun Evans sy'n cyflwyno Saith ar y Sul, is-gyfesr Caniadaeth y Cysegr. Heddiw, cantorion capeli Dosbarth Pen Llŷn sy'n dewis eu hoff emynau o gymanfa a gynhaliwyd yng nghapel Rhydbach, Botwnnog.

Oedfa Radio Cymru

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp,
12 Gorffennaf yng ngofal
Criw Gŵyl Llanw

Mae Radio Cymru wedi newid trefn y ddarpariaeth grefyddol ar y Sul ers mis Ebrill, gyda'r arlwy yn edrych fel hyn bellach:

7:30yb Caniadaeth y Cysegr
12:00yp Yr oedfa
12:30yp Bwrw Golwg
16:30yp Caniadaeth y Cysegr
(aillardarllediad)



Sul, 12fed Gorffennaf

Oedfa
Dechrau Canu Dechrau Canmol
am 11:00yb
gyda Karen Owen, Pen-y-groes
yn arwain

Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad* (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

'Am gael hwn yn iaith ein mamau': Cofio Beibl 1620 (I)

Pan ofynnodd y golygydd am gyfraniad yn ystod eleni i ddathlu Beibl 1620, rhywbeth pell, draw yn Tsieina, oedd y sôn am haint COVID-19. Erbyn imi fynd ati i geisio gosod y geiriau hyn wrth ei gilydd, boom yn ei chanol hi: yn ymdeimlo â'n breuder, yn ymwybod â dioddefaint cynifer o'n cydfforddion ac â thralod teuluoedd dirifedi, ac yn gwyleiddio'n ddiolchgar gerbron hunanaberth y rheini sydd – ddydd ar ôl dydd – yn peryglu eu heinioes eu hunain yng ngwasanaeth eraill.


Mae'n siwr bod dwyster yr argyfwng wedi rhoi min dirfodol ar ddarllen rhannau o'r Beibl ym mhrofiad llawer ohonom. A daw ambell adnod yn ddigymell i'r cof – a dod fel arfer (yn fy achos i, beth bynnag) yng ngeiriau cyfoethog 'yr hen gyfieithiad'. Adnodau fel y rhain: 'Dy noddfa yw Duw tragwyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragwyddol (Deut. 33: 27), neu, 'Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot' (Eseia 43: 2). Gweddiwn am wireddu'r addewidion hyn i'r rheini sydd mewn enbydrwydd heddiw, yn eu plith rai o'n cydnabod.

Wedyn dyna'r adnod hon, a fu'n seinio yn fy nghlustiau ers wythnosau: 'Bwrw dy faich ar yr ARGLWYDD, ac efe a'th gynnal di: ni ad ef i'r cyfiawn ysgogi byth' (Salm 55: 22). (Efallai fod y 'seinio' hwnnw i'w briodoli, o leiaf yn rhannol, i atgofion – o orffennol pell, erbyn hyn – am glywed canu'r geiriau, mewn oedfa nos Sul neu gymanfa, yn nhrefniant anthem W. Matthews Williams, rhif 22 yn *Llyfr Emynu a Thonau* 1929.)

I bwy yr ydym ni Gymry yn ddyledus am gael, yn ein hiaith ein hunain, gysur a

chadernid ysbrydol adnodau fel y rhain, adnodau y ceir hefyd y fath ruddin geirfaol a llenyddol yn eu mynegiant? 'Am gwestiwn diangen,' meddech chi. 'Fe w'yr pob un o ddarllenwyr *Y Goleuad* yn iawn mai gwaith yr Esgob William Morgan yw'r Beibl Cymraeg: y Beibl a gafwyd yn 1588 ac a fu mewn bri am 400 mlynedd, hyd at gyhoeddi'r *Beibl Cymraeg Newydd*.'

Digon gwir – ond nid y gwir i gyd! Ystyrier eto Salm 55: 22. O droi at Feibl 1588, ceir mai fel hyn y mae'r adnod yn darllen yno: 'Bwrw dy ofal ar yr Arglwydd, ac efe a'th faetha di, ni âd i'r cyfiawn syrthio byth.' Yr un yw ystyr y ddau fersiwn, bid siwr, a'r un yw eu patrwm cystrawennol, yn cynnwys trefn 'brawddeg annormal' (fel y geilw'r gramadegwyr y peth) yn 'efe a' + berf. Ond y mae tri gwahaniaeth amlwg, o ran geirfa, rhwng cyfieithiad 1588 a'r fersiwn cyfarwydd: 'dy ofal', nid 'dy faich'; 'a'th faetha', nid 'a'th gynnal'; 'syrthio', nid 'ysgogi'.



William Morgan

Wrth reswm, y mae rhan William Morgan yn rhoi inni'r Beibl Cymraeg yn gwbl allweddol. Ond, a bod yn fanwl gywir, nid Beibl 1588, ei fersiwn ef, yw'r 'hen gyfieithiad' fel y syniwn ni amdano, ond yn

hytrach ei fersiwn ef **wedi'i ddiwygio**. Ac mae'n briodol cofio hynny eleni, oherwydd yn 1620, bedwar can mlynedd union yn ôl, y cyhoeddwyd y

Beibl diwygiedig hwnnw am y tro cyntaf. I'r Esgob Richard Parry, olynnydd William Morgan yn Llanelwy, ac i Dr John Davies, Mallwyd, yr ydym yn ddyledus am Feibl 1620.

Y mae'n bwysig cofio hefyd fod gan William Morgan nid yn unig ei olynwyr ond hefyd ei ragflaenwyr, yn arbennig William Salesbury. Dair blynedd yn ôl boom yn dathlu 450 mlwyddiant Testament Newydd a Llyfr Gweddi Gyffredin 1567. Ynglwm wrth y Llyfr Gweddi darparodd Salesbury gyfieithiad o'r Salm, a dyma'i fersiwn ef o Salm 55: 22. (Un o arferion Salesbury oedd cynnig amrywiadau geirfaol, y gallai'r offeiriad ddewis rhyngddynt, a cheir enghreifftiau o hynny yma. Na phoener am ei hynodion orgraffyddol!): 'Bwrw dy vaich ar yr Arglwydd, ac ef a'th gynnal*: ny ad ef ir cyfion syrthio† yn tragvyth' [*Ymyl y ddalen*: *vag, vaetha; †gwympo].



William Salesbury

By Llywelyn2000 – Gwaith yr uwchlwythwr, CC BY-SA 4.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=62840374>

Fel y gwelir, y mae ôl fersiwn Salesbury, a rhai o'i awgrymiadau amgen hefyd, yn amlwg yng nghyfieithiadau 1588 a 1620. Ond beth a droes y fantol, rhwng un gair a'r llall, yn meddwl John Davies a Richard Parry? Hwyrach fod rhan, beth bynnag, o'r ateb i'r cwestiwn hwnnw i'w ganfod yng nghyfieithiad Saesneg 1611 o'r adnod: 'Cast thy burden [= *baich*] upon the LORD, and he shall sustain [= *cynnal*] thee: he shall never suffer the righteous to be moved [= *ysgogi*]. Cawn ystyried rhai o ymhygiadau hynny y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

Ceri Davies

Taro'r Post



Annwyl Olygydd,

Mae yna ymadroddion rydym wedi eu clywed am y tro cyntaf, sef y 'normal newydd' anodd meddwl a derbyn bod yr hen normal wedi diflannu (ar y funud beth bynnag)

Dyma'r newyddion da. Clywir fod aelodau ein capeli yn troi at yr efengyl yn fwy nag erioed. Mewn un eglwys yma yn y Gogledd amcangyfrifwyd fod dau gant wedi troi at y cyfryngau cymdeithasol mewn eglwys lle byddai dim ond deugain yno ar y Sul. Dim ond un eglwys yw hon. Sut mae hi yn gyffredinol?

Cefais fy nghyffwrdd yn fawr pan glywais ar y newyddion, fod nyrsys yn troi at

weddi cyn dechrau 'shiff't' yn ystod yr argyfwng hwn. O! meddai'r amheuw'r. 'Despret oeddynt yn cymryd yr agwedd jyst rhag ofn!' Nage gyfeillion, unigolion oedd y rhain oedd yn gwybod nad oedd nerth dynol materol ddim yn ddigon. Ac yn sylweddoli bod angen nerth ysbrydol arnynt i gyflawni eu gwaith. Tybed faint o'r cyfeillion hyn, oedd yn penlinio am y tro cyntaf, neu yn gwneud arferiad, chawn ni byth wybod?

Fe ddywedir weithiau fod popeth yn digwydd am reswm. Tybed gyfeillion, a fuaswn yn naif, anghyfrifol a thwp i greu fod a wnelo llaw Duw rhywfaint â hyn i gyd?! Meddai'r byd wrthym, 'Cadwch draw, peidiwch â chyffwrdd.' Ond meddwn ni 'Nesewch at Dduw y mae "O" yn ddiogel ac yn rhydd a bob haint!' Wrth law a hyd i wrando cri, nesáu at Dduw sy'n dda i mi. Nesawn ato, mae tystiolaeth ein bod.

Mae gofid am y Cov-id Parha i fod yn fyw, Yn bygwth gyson, gyson Be wnawn ni O, ein Duw?,

Bu rhai yn meddwl weithiau – Bod hyn i gyd i fod?! I'n dysgu fod yn ddiolchgar A hyn heb unrhyw glod.

Mae dadl pryd y cawn ni Gael cwrdd â bod yn iawn, Mwynhau y pethau gorau Byw bywyd oll yn llawn.

Mae gofid am y Cov-id Sy'n bygwth pawb bob man, Rhaid credu eto heddiw Fe ddown ni at y lan!

Yn gywir

Parchedig Iorwerth P. Jones,
Rhuthun.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Wedi rhai wythnosau bellach o ddarlleniadau 'caled' mae'r Llithiadur Diwygiedig Cyffredin yn ein harwain yn ôl i diroedd mwy cyfarwydd.

Gweddi

Arglwydd Dduw, hollalluog, yr hwn wyt cyn pob peth, dros bob peth ac sy'n cynnal pob peth gyda'th air nerthol. Arglwydd Iesu, diolch mai ti yw'r un sydd yn y byd, yr hwn y daeth y byd i fod trwyddo. Addolwn Di yr hwn wyt y Gair a ddaeth yn gnawd. Ysbryd Glân, crêwr pob goleuni, sancteiddrwydd a bywyd tyrd i'n plith i fywau'r gair o'n mewn. Drindod Sanctaidd. Gogonedda dy hun yn ein plith. Amen.

Cyflwyniad

I'r rhai ohonom sydd wedi ceisio gosod lawnt newydd ac wedi codi'r hen a chloddio a mesur yn ofalus faint o had sydd i fynd i bob metr sgwâr, bydd y darlun o'r heuwr a aeth allan i hau yn fyw iawn i ni! Bydd yr adar, y creigiau a'r chwyn yn drafferthion cyfarwydd.

Yr oedd chwedl Iddewig oedd yn awgrymu bod y wlad mor greigiog am fod angel oedd yn cario llwyth o gerrig wedi cael anffawd a achosodd i'w lwyth gael ei wasgaru dros y tir. Darlun byw ydyw o amaethu ar dir caregog, llychlyd, anodd ei drin.

Darllen: Mathew 13: 1-9, 18-23 – Dameg yr heuwr

Er ein bod yn rhybuddio'n hunain rhag troi damhegion Iesu Grist yn alegoriau yn hytrach nag yn ddamhegion ceir elfennau yn y ddameg hon sy'n gofyn am ddealltwriaeth alegoriaidd o ddysgeidiaeth Iesu Grist.

Mewn alegori y mae i'r elfennau o wybodaeth a gyflwynir arwyddocâd i graffu arno. Mewn dameg, fel arfer, un ergyd neilltuol sydd i'r wybodaeth. Ac mae'r allwedd i'r darn yn y ddameg ei hun.

Pan drown at yr adnodau heddiw mae'n werth oedi i ofyn ai dameg am yr **heuwr** sy'n llafurio ar dir creigiog yw hwn? Neu ai cyfeirio y mae at natur y **tir** ei hun? Ai am lwybr caled, y tir creigiog, y tir lle bydd y drain ymhen amser yn tagu'r had, a'r tir ffrwythlon lle daw cynhaeaf toreithiog mae'r ddameg? Neu tybed ai am yr **had** sy'n cael ei wasgaru'n hael ac sy'n dwyn cynhaeaf y mae?

Ar beth mae Iesu Grist am i ni ganolbwyntio?

Darllen: Mathew 13:18-23

Pan edrychwn ar esboniad Iesu Grist o'i ddameg alegoriaidd byddai'n hawdd meddwl bod yr apostolion, a ninnau, sy'n cael ein hanfon i'r byd i wneud disgyblion i fod yn **debyg i'r heuwr**. Mae'n rhannu'r 'gair', sef Gair Duw, yn hael ac yn 'wastraffus' bron. Nid yw'n penderfynu o flaen llaw, gan na all wybod o flaen llaw, lle bydd y cynhaeaf fwyaf.

Os credwn mai sôn am y tir y mae'r ddameg gallwn oedi i feddwl **pa fath o 'dir' yw'n calonnau ni?** A yw'n calonnau fel y 'llwybr' sydd wedi ei wasgu a'i bobl'n galed fel na all yr had ganfod dyfnder daear? Ai calonnau ydynt lle mae'r un drwg yn cipio'r had cyn iddo wreiddio?

Mae'n debyg ein bod wedi adnabod pobl sydd wedi ymateb yn frwdfrydig i'r Arglwydd Iesu Grist – ond yn wahanol i'r rhai sy'n parhau hyd y diwedd (10:22) dros dro mae eu sioe o ffydd. Pobl y 'tir caregog' yw'r rhain yn ôl Iesu Grist. Pobl nad oes ganddynt 'wreiddyn' – pobl sy'n cefnu pan ddaw anawsterau i'w rhan.

Neu beth am y tir hwnnw neu'r galon sy'n derbyn y gair – nid yw'n amau gwirionedd y gair. Ond 'ymhlith y drain' y plannwyd yr had. Ac ar ôl ychydig o amser daeth 'pethau eraill' i dagu'r planhigyn. Daeth 'gofal y byd hwn a hudoliaeth golud' i fygu'r bywyd. Fe all barhau, ond fe fydd bob amser yn ddiffwrth.

A diolch bod yna beth had yn syrthio ar dir da sy'n dwyn ffrwyth sylweddol. Dyma'r bobl sy'n 'derbyn y gair'. Ond nid profiad emosiynol yn unig mo'i ffydd. Wedi'r cyfan, meddai Iesu, clywant y gair a'i "ddeal". Mae'r ffydd sy'n dwyn ffrwyth bob amser yn brofiadol, ond y mae hefyd bob amser yn ymdrechu i ddeal addewidion Duw, ei ddatguddiad yn Iesu Grist, a natur gwaith yr Ysbryd Glân o'n mewn.

Beth os mai dameg ydyw sy'n gosod yr **had** ar y canol? Bydd, fe fydd had y gair yn cael ei rannu'n helaeth, gydag ymdrech, yn 'wastraffus' bron – ym

mhob cwr o'r ddaear. A bydd, fe fydd llawer o 'wastraff'. Bydd llawer o'r hyn sy'n cael ei hau yn cael i gipio o galonnau pobl galon galed. Fe fydd rhai yn ymateb cyn cefnu'n fuan. Bydd, fe fydd peth o'r had yn cael ei dagu. Dyna realiti gwaith yr efengyl. Ond os am yr had mae'r ddameg yna mae diwedd y ddameg yn ein harwain i gredu, i ddisgwyl, i weddio y bydd y gair yn 'dwyn ffrwyth, ac yn rhoi peth ganwaith cymaint, a pheth drigain a pheth ddeg ar hugain.' (ad 23)

Am anogaeth i'r apostolion oedd yn deall bellach bod tasg enfawr yn eu hwynebu. Gwyddent y byddai gelyniaeth byd a chrefydd yn eu herbyn. Ond fe fydd ffrwyth. Fe fydd cynhaeaf wedi'r aberth a'r ymdrech!

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist cyffeswn ger dy fron ein aml ffaeiddau a'n pechodau niferus. Nid ydym wedi dy garu a'n holl galon, nerth na chalon. Ac yn sicr ni wnaethom garu'n cymydog fel y dylem. Yr ydym yn edifarhau am hyn oll. Ac yr ydym yn dyheu eto heddiw, 'O Iesu mawr, rho d'anian bur.' Gweddiwn dros dy eglwys ar draws y byd... dros Gristnogion sy'n cael eu herlid...

Gweddiwn dros yr ynysoedd hyn. Dros lywodraeth yr Alban ... dros lywodraethau ynys Iwerddon, ... dros Loegr a'i dinasoedd poblog ... a thros Gymru'n gwlad. Dysga ni o'r newydd sut mae cyd-fyw gyda phobl sy'n cytuno i ni, yn debyg i ni a gyda'r bobl rheiny na allwn gytuno â nhw.

Gweddiwn dros bobl a gafodd eu clwyfo gan amgylchiadau, gan bobl yr oeddynt yn ymddiried ynddynt, dros blant a gwagedd sy'n byw yng nghysgod ofn. Gweddiwn dros ffoaduriaid a gollodd bopeth. Gweddiwn dros blant – yn fechgyn a merched sy'n cael eu caethiwo i weithio fel puteiniaid – hyd yn oed heddiw. Dduw Dad, trugarha wrth boenau'r byd.

Deled dy deyrnas yw ein cri. Drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.cymru

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.